# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

## *26/6/2023*

**Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Geraint Roberts, W D Williams,

Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emyr Jones a Tyly Roberts.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 15/5/23.
5. **Cyngor Gwynedd a materion lleol y Cynghorwyr:** Gofynnwyd i'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd i dynnu sylw eto am yr angen i berchnogion dorri'r gwrych wrth y Clwb Hwylio. Cafwyd cwynion eto am oedi ar y ffordd oherwydd dwysedd yr ymwelwyr, a holwyd a ydyw'n bosib gosod arwydd "Ffordd Gul" ar ddeupen y ffordd B4403. Tynnwyd sylw hefyd at y cerrig mân a'r mwd a ddaeth lawr yn ystod y glaw trwm diweddar; mae pryderon bod y *gratings* wedi cau wrth gornel y fynwent ac ymlaen at y bont - ac y gallai hyn olygu pyllau dŵr yn y dyfodol.
6. **Cyfarfod Ardal Ni Cyngor Gwynedd 25/5/23:** dywedodd y Clerc iddi fynychu ar ran y Cyngor a thrafod gyda Lindsey Ellis Edwards yr angen am gegin newydd a darpariaeth i'r plant yn y Neuadd. Ysgrifennodd y Clerc ar ran y Cyngor i gefnogi cais Pwyllgor y Neuadd am grant.
7. **Webinar Parc Cenedlaethol Eryri ar 8/6/23:** Adroddodd y Cadeirydd am yr Adolygiad o Gynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri sydd at y gweill a'r dulliau gorau o gyfathrebu gyda Chynghorau Cymuned.
8. **Camerâu cylch cyfyng** – adroddodd y Clerc am y sefyllfa ddiweddaraf, sef bod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gwneud cais am gamerau APNR ar yr A494 ac ar y groesffordd i gyfeiriad Bwlch y Groes. Byddai hyn o gymorth i leihau troseddu cefn gwlad.
9. **Materion ariannol:**
    a. Ystyriwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol, gan roi sylw i'r angen am lythyron os dymunir gwrthod Lwfans Cynghorydd (£156).
    b. Ystyriwyd Ffurflen Blynyddol 2022-23 a'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer yr Archwilydd Allanol. Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo ar ran y Cyngor ac i anfon y Ffurflen Blynyddol i sylw'r Archwilydd Allanol.
    c. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol bresennol.

**Ar gais y Cyngor, talwyd**

| | | |
|---|---|---|
| 18/5/23 | Petalau Eleri | £ 20.00 |
| 18/5/23 | Cyfraniad i'r Ganolfan Deulu | £150.00 |
| 18/5/23 | Yswiriant Zurich | £146.83 |
| 18/5/23 | Camgymeriad Cyngor Gwynedd | £ 50.00 |

**Derbyniwyd** rhoddion (£170) tuag at wella llwybr y fynwent, a diolchwyd am y rhain.

**Cytunwyd** i dalu'r anfoneb am dorri gwair y fynwent. Diolchwyd am y lluniau a oedd yn dangos gwaith cymen iawn.

10. **Llwybr y fynwent:** Gofynnwyd i'r Clerc wneud cais am grant i greu llwybr yn y fynwent. Oherwydd prinder amser cyn y diwrnod cau, gofynnwyd i Clwyd Davies gyfarfod Dafydd Emyr i geisio cael amcan bris am y gwaith ar gyfer y ffurflen gais. Roedd y Clerc eisoes wedi holi Sion Jones a ddywedodd ei fod yn brysur iawn ar hyn o bryd.

11. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Cytunwyd i adael mater cynllunio **NP5/70/83E** sef adeiladu sied amaethyddol Ffynnon Gywer, Llangywer. LL23 7DA ar y bwrdd.

**12. Gohebiaeth:**

i. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad i'r Ganolfan Deulu a chytunwyd i ystyried ymweld a'r Ganolfan ym mis Medi.
ii. Un Llais Cymru – derbyniwyd Rheolau ariannol newydd a gofynnwyd i'r Clerc edrych yn fanwl dros y rhain cyn i'r Cyngor eu mabwysiadu.

13. **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 11/9/23 yn y Neuadd

*Amser gorffen:*
*9.00pm*